



Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner

Y Pwyllgor Biliau Diwygio  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1SN

SeneddDiwygio@senedd.cymru

26/10/2023

Annwyl Bwyllgor,

## Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)

Diolch ichi am y cyfle i roi tystiolaeth ysgrifenedig a llafar ichi ar y Bil hanesyddol hwn yn natblygiad datganoli yng Nghymru. Edrychaf ymlaen at gwrdd â chi i drafod y Bil mewn mwy o fanylder ar 9 Tachwedd.

Fel Comisiynydd y Gymraeg fy mhrif nod wrth arfer fy swyddogaethau yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg fel y nodir ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Manylir ar y swyddogaethau yn Rhan 2 y Mesur hwnnw. Mae gen i hefyd gyfrifoldeb pwysig ac unigryw i argymhell ffurfiau safonol enwau lleoedd Cymru ac mae fy swyddogion yn cynnig gwasanaeth ymgynghorol poblogaidd i sefydliadau o bob math. Cyfyngaf fy sylwadau felly, i'r agweddau penodol o'r Bil y credaf sy'n benodol yn ymwneud â chyfluoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, yn ogystal ag effeithiau posibl y Bil ar fy ngweithgareddau innau fel Comisiynydd.

### 1. Cynyddu maint y Senedd i 96 Aelod

Eglura'r Memorandwm Esboniadol wrth roi'r cefndir i fwriad y Bil i gynyddu maint y Senedd i 96 aelod: 'Un pryder cyson sydd wedi codi yn y gwahanol adroddiadau yw bod maint y Senedd yn effeithio ar ei gallu cyfunol i ddal Llywodraeth Cymru i gyfrif yn effeithiol, gan gynnwys craffu ar bolisiau a deddfwriaeth' (36 yn y memorandwm) ac 'Yn benodol, mae diffyg capasiti yn cyfyngu ar allu Aelodau'r Senedd i arbenigo, fel a fyddai'n digwydd mewn seneddau eraill. Yn ddelfrydol, mae Aelodau'n arbenigwyr mewn maes craffu penodol, ac yn defnyddio cyfarfodydd pwyllgor i ddal Llywodraeth

#### Comisiynydd y Gymraeg

Siambrau'r Farchnad  
5-7 Heol Eglwys Fair  
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221

post@comisiynyddygybraeg.cymru

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

[comisiynyddygybraeg.cymru](http://comisiynyddygybraeg.cymru)

#### Welsh Language Commissioner

Market Chambers  
5-7 St Mary Street  
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221

post@welshlanguagecommissioner.wales

Correspondence welcomed in Welsh and English

[welshlanguagecommissioner.wales](http://welshlanguagecommissioner.wales)



Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner

Cymru i gyfrif – nid dim ond ar sail briffiau cefndirol gan y staff, ond ar sail eu hymchwil a'u hymgysylltiad eu hunain' (39 yn y memorandwm). Buaswn yn croesawu pob cyfle posibl i gynyddu'r craffu sy'n digwydd ar bolisiau a deddfwriaeth sy'n ymwneud â'r Gymraeg a hynny ar draws yr holl feysydd sydd o fewn cymhwysedd Llywodraeth Cymru, nid dim ond ar faterion sydd ar yr olwg gyntaf yn ymwneud yn benodol â'r Gymraeg. Mae potensial mawr i nifer o ddeddfau a pholisïau eraill effeithio ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg mewn meysydd mor eang â'r economi, arloesi, yr amgylchedd, cynllunio ac addysg. Mae'n bosibl felly y byddai cynyddu maint y Senedd i 96 aelod yn cynyddu'r capasiti hwnnw ac yn galluogi nifer uwch o Aelodau i ddod yn arbenigwyr ar y Gymraeg, ac i bob aelod ddod i ddeall sefyllfa'r Gymraeg yng Nghymru heddiw yn well. Fodd bynnag, ni allwn gymryd hyn yn ganiataol wrth gwrs felly rhaid pwysleisio pwysigrwydd yr isadeiledd hwnnw a ddarperir gan staff Comisiwn y Senedd a staff Aelodau a phleidiau i alluogi'r Aelodau i ddyfnhau eu gwybodaeth am sefyllfa'r Gymraeg.

Yn unol â [Deddf Llywodraeth Cymru 2006](#) mae testunau Cymraeg a Saesneg pob Mesur Cynulliad a Deddf Senedd Cymru sydd yn Gymraeg ac yn Saesneg pan gânt eu deddfu, a thestunau unrhyw is-ddeddfwriaeth sydd yn Gymraeg ac yn Saesneg pan gaiff ei wneud, i'w trin at bob diben â'u statws yn gydradd â'i gilydd. Mae'n gwbl hanfodol felly fod Aelodau'r Senedd yn gallu craffu ar y ddeddfwriaeth yn y ddwy iaith i sicrhau fod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal a bod deddfwriaeth yn y ddwy iaith yn cyflawni ei nod polisi.

Mae Rhan 1, Adran 35 (2) Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn nodi 'The Assembly [y Senedd bellach wrth gwrs] must, in the conduct of Assembly proceedings, give effect, so far as is both appropriate in the circumstances and reasonably practicable, to the principle that the English and Welsh languages should be treated on a basis of equality.' Mae gan bob Aelod o'r Senedd yr hawl i ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg wrth eu gwaith fel Aelodau felly. Mater i Aelodau unigol wrth gwrs yw'r iaith y dewisant ei defnyddio. Cyhoeddir data am ddefnydd Aelodau'r Senedd o'r Gymraeg yn yr adroddiad blynyddol am weithrediad Cynllun leithoedd Swyddogol y Senedd. Mae [adroddiad diweddaraf \(2022–23\)](#), er enghraifft, yn nodi bod canran y cyfraniadau Cymraeg mewn Cyfarfodydd Llawn wedi parhau ar yr un lefel (30%) â'r flwyddyn flaenorol ond gwelwyd gostyngiad yng nghanran y cyfraniadau Cymraeg mewn Pwyllgorau (12%) mewn cymhariaeth â 2021-22. Mae'r ffigurau hyn wedi bod mor isel â 16% a 6% mor [ddiweddar â 2019 – 20](#)). Mae'r adroddiad diweddaraf yn cydnabod bod hyn yn destun siom a phryder ac yn cydnabod y ffactorau cymhleth sy'n gallu



Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner

effeithio ar ddewis iaith unigolion mewn gwahanol gyd-destunau, gan gynnig datrysiadau pragmataidd i geisio gwyrddroi'r patrwm. Ac mae'n rhaid gwyrddroi'r patrwm hwn ar fyrder er mwyn sicrhau statws gwirioneddol i'r Gymraeg fel iaith gwaith ar lawr y Senedd. Buaswn yn annog pob Aelod i geisio defnyddio eu Cymraeg ar bob cyfle posibl ac i gymryd rôl arweiniol drwy fodelu i Gymru ac i'r byd sut mae gweithio'n wirioneddol ddwyieithog.

Credaf fod y cynnydd hwn ym maint y Senedd yn gyfle euraid i gyflwyno arferion gweithio ieithyddol newydd ymysg Aelodau'r Senedd ac i ystyried o'r newydd a yw'r isadeiledd presennol sy'n cefnogi Aelodau'r Senedd yn ddigonol i sicrhau bod yr Aelodau yn gallu craffu yn llawn ar ddeddfwriaeth ddwyieithog Cymru, ac yn ddigonol i'w cymell a'u galluogi i weithredu eu hawl i ddefnyddio'r Gymraeg yn llawn wrth eu gwaith fel Aelodau. Dylid ystyried ar y pwynt hwn sut i fynd i'r afael â phob rhwystr sy'n golygu nad yw Aelodau yn defnyddio'r Gymraeg a bod buddsoddiad a chynllunio digonol mewn lle i gefnogi Aelodau'r Senedd i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg yn y cyd-destun newydd hwn. Drwy ddechrau cynllunio yn awr dyma gyfle gwirioneddol gyffrous i'n Senedd arloesi ddod yn ddeddfwrfa wirioneddol ddwyieithog. Wrth gynllunio ymlaen, ac o ystyried mai hawl Aelod unigol yw'r dewis iaith, y man cychwyn fyddai cynnal adolygiad gyda'r Aelodau hynny er mwyn deall pa ddarpariaeth benodol fyddai modd i'r Comisiwn ei ddatblygu ymhellach er mwyn hybu a hwyluso eu defnydd o'r Gymraeg.

## **2. Lleihau'r amser rhwng etholiadau cyffredinol arferol y Senedd o bum mlynedd i bedair blynedd.**

Nid oes gennyf safbwynt ynghylch newid y cyfnod amser rhwng etholiadau arferol y Senedd yn ôl i bedair blynedd fel yr arferai fod. Er hynny, gwn nad mater hawdd a chyflym yw datblygu polisi a deddfu mewn unrhyw faes a bod angen cryn adnoddau i alluogi hynny. O'r herwydd, gofynnaf i Aelodau sicrhau eu bod o'r farn fod tymhorau o bedair blynedd yn caniatáu digon o amser i graffu a deddfu ar bolisi a deddfwriaeth ym mhob maes sydd o fewn cymhwysedd y Senedd, gan gynnwys y Gymraeg. Yn yr un modd, petai'r cyfnodau rhwng etholiadau yn fyrrach byddai'n rhaid sicrhau bod adnoddau digonol gan bob adran o Lywodraeth Cymru i alluogi datblygu polisi a deddfwriaeth ym mhob maes o fewn ei chymhwysedd y bwriada ddeddfu ynddo o fewn yr amser sydd ar gael i wneud hynny.



Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner

**3. Cynyddu uchafswm y Dirprwy Lywyddion o un i ddau**

Nid oes gennyf safbwynt ynghylch cynyddu uchafswm y Dirprwy Lywyddion o un i ddau. Buaswn yn annog y dylid rhoi ystyriaeth i'r angen i o leiaf un o'r Dirprwy Lywyddion allu siarad Cymraeg er mwyn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn y Senedd a darparu arweiniad wrth wneud hynny.

**4. Cynyddu'r terfyn deddfwriaethol ar faint Llywodraeth Cymru i 17 (ynghyd â'r Prif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol), a rhoi'r pŵer i gynyddu'r terfyn ymhellach i 18 neu 19.**

Mae'r Gymraeg yn fater sydd o fewn cymhwysedd Llywodraeth a Senedd Cymru sy'n gwbl unigryw i Gymru. Er hynny, rhan yn unig o bortffolio gweinidogion Llywodraeth Cymru fu'r Gymraeg ers dechrau cyfnod datganoli. Mae'n bosibl y byddai ehangu nifer y gweinidogion yn galluogi Llywodraeth Cymru i greu gweinidog allai ganolbwyntio yn llwyr ar y Gymraeg. Byddai neilltuo amser gweinidog i arwain yn strategol ar bwnc trofswaol y Gymraeg o bosibl yn caniatáu adnodd gweinidogol ychwanegol i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried yn strategol ar draws portffolios pob gweinidog yn y Llywodraeth.

**5. Ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr yn etholiadau'r Senedd ac i Aelodau o'r Senedd, fod yn preswyllo yng Nghymru (drwy anghymwyso ymgeiswyr ac Aelodau nad ydynt wedi'u cofrestru i bleidleisio yn un o etholaethau'r Senedd).**

Nid oes gennyf sylw ar y mater hwn.

**6. Cynnig mecanwaith i'r Seithfed Senedd fedru ystyried rhannu swyddi sy'n ymwneud â'r Senedd (drwy ei gwneud yn ofynnol i'r Llywydd yn y Seithfed Senedd gynnig sefydlu pwyllgor Seneddol i adolygu materion penodedig).**

O safbwynt y Gymraeg yn benodol nid oes gennyf safbwynt ar y mater hwn. Fodd bynnag, buaswn yn croesawu pob cyfle i ddileu rhwystrau sy'n atal pobl rhag dod yn Aelodau o'r Senedd. Dangosodd y cyfrifiad diwethaf fod proffil oedran siaradwyr Cymraeg yn iau na'r boblogaeth gyffredinol. O'r rheini adroddodd eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn 2021, roedd dros hanner yn iau na 33 oed a thri chwarter yn iau na 57 oed. Gwelwyd cynnydd bychan yn nifer y siaradwyr yn y grŵp oedran 20-44 sy'n grŵp oedran lle mae sawl un yn cynllunio magu teuluoedd a datblygu eu gyrfaoedd. Mae'n bosibl felly y byddai dulliau gweithio mwy hyblyg yn denu rhagor o siaradwyr Cymraeg felly.



Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner

**7. Newid system etholiadol y Senedd fel bod pob Aelod yn cael ei ethol drwy gynrychiolaeth gyfrannol ar sail rhestr gaeedig, a throi pleidleisiau'n seddi gan ddefnyddio fformiwla d'Hondt.**

Nid oes gennyf sylw ar y mater hwn.

**8. Newid diben ac enw Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru. Ei alw'n Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru a rhoi'r swyddogaethau sydd eu hangen arno i sefydlu etholaethau newydd y Senedd a chynnal adolygiadau parhaus o ffiniau etholaethol y Senedd; a rhoi cyfarwyddiadau i'r Comisiwn eu dilyn wrth adolygu ffiniau.**

Mae i'r adran hon oblygiadau penodol o safbwynt gwaith Comisiynydd y Gymraeg. Mae'n rhoi'r gofyniad penodol ar Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru a fydd yn cael ei alw yn Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru i ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg ar orgraff enwau arfaethedig ar gyfer cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg a rhoi sylw i unrhyw sylwadau a gafwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg wrth ystyried ei gynigion. Mae hynny mewn perthynas ag adolygu ffiniau 2026 a ffiniau etholaethau'r Senedd wedi hynny.

Fel y gwyddoch, mae gan fy swyddfa gyfrifoldeb penodol i argymhell ffurfiau safonol enwau lleoedd. Mae gennym [banel o arbenigwyr](#) i'n cefnogi yn y gwaith hwn ac mae'r panel wedi datblygu [canllawiau safoni cenedlaethol](#) i sicrhau seiliau cyson a chadarn i'r gwaith. Mae gennym berthynas dda a llwyddiannus â swyddogion Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru a Chomisiwn Ffiniau i Gymru ers sefydlu swyddfa'r Comisiynydd ac rydym wedi darparu cyngor rheolaidd iddynt ar faterion enwi wrth iddynt gynnal adolygiadau. Yn wir, rydym newydd ddechrau cynghori'r Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol ar enwau cymunedau yn rhan o'u cyfres o arolygon cymunedol. Rwyf felly yn croesawu ymestyn y berthynas hon i gwmpasu enwau etholaethau Senedd Cymru a bod y berthynas yn cael ei ffurfioli mewn deddfwriaeth.

Fodd bynnag, rhaid pwysleisio nad yw'r cydweithio hwn bob amser wedi arwain at fabwysiadu'r ffurfiau y mae'r Comisiynydd yn eu hargymhell. *Argymell* yw gwaith y Comisiynydd ac nid oes gofyniad statudol i neb ddilyn yr argymhellion hyn. Gall hyn arwain at sefyllfa lle mae penderfyniadau anghyson yn cael eu gwneud mewn perthynas ag enwau lleoedd, fel yn achos ambell enw ar wardiau etholiadol a gadarnhawyd mewn rheoliadau gan Lywodraeth Cymru yn ddiweddar. Ysgrifennodd fy



Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner

rhagflaenydd fel Comisiynydd, Aled Roberts at Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg yn amlinellu rhai o'r heriau a gododd ar y pryd. [REDACTED]

[REDACTED] Gall yr heriau hyn arwain at ddryswch ac anghysondeb. Ategwyd peth o'r rhwystredigaethau hyn ynghylch prosesau enwi ymhellach wrth i'r Comisiynydd ymateb i [Arolwg Seneddol 2023 y Comisiwn Ffiniau i Gymru](#) hefyd. Rhaid defnyddio'r cyfle hwn i ddysgu gwersi a mireinio'r drefn gan sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth bennu'r enwau hynny fydd wrth galon democratiaeth yng Nghymru.

Ar sail profiad sylweddol yn y maes hwn felly, rwy'n argymhell fod y Pwyllgor yn ystyried y materion canlynol:

Mae gofyniad o dan Atodlen 1 y Bil i nodi enwau etholaethau'r Senedd mewn adroddiad yn ofyniad i 'nodi'r ddau enw— (a) yn y fersiwn Gymraeg, a (b) yn y fersiwn Saesneg, oni bai bod y Comisiwn yn ystyried bod un enw yn dderbyniol ar gyfer cyfathrebu drwy'r naill iaith neu'r llall'. Yn ogystal, ar ôl cyhoeddi ei ail adroddiad ar adolygiad ffiniau 2026 (c) 'os yw'r Comisiwn yn ystyried unrhyw newidiadau i'r cynigion a nodir yn yr adroddiad cychwynnol ar gyfer enwau etholaethau'r Senedd i'w defnyddio ar gyfer cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg— (i) ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg ar orgraff yr enwau arfaethedig, a 5 (ii) rhoi sylw i unrhyw sylwadau a wneir gan y Comisiynydd'.

Rwyf yn croesawu'r gydnabyddiaeth i'r ffaith ei bod yn bosibl y byddai un enw yn dderbyniol ar gyfer cyfathrebu drwy'r naill iaith neu'r llall. Credaf y dylid mynd ymhellach na hynny a rhoi blaenoriaeth i enwau y byddai'n addas eu defnyddio yn y ddwy iaith er mwyn osgoi enwau deuol diangen. Yn achos nifer o etholaethau ar hyn o bryd dim ond un enw a hwnnw yn enw Cymraeg sy'n bodoli fel enw ar yr etholaeth yn y ddwy iaith. Mae [Canllawiau safoni enwau lleoedd Cymru](#) yn nodi 'Dylid anelu at arfer un ffurf yn unig pan nad oes ond llythyren neu ddwy o wahaniaeth rhwng y ffurf Gymraeg a'r ffurf 'Saesneg', gan dueddu at y ffurf Gymraeg. Dyma hefyd ddymuniad yr Arolwg Ordnans ac Awdurdodau'r Priffyrdd.' Buasem yn argymhell yn gryf fod yr egwyddor hon yn cael ei mabwysiadu gan y Comisiwn wrth ei waith.

Mae'r Bil presennol felly yn gosod y cyfrifoldeb ar y Comisiwn i ystyried a phenderfynu a fyddai un enw yn dderbyniol ar gyfer cyfathrebu drwy'r naill iaith neu'r llall. Mae fy swyddogion yn gwybod o brofiad nad yw hyn bob amser yn benderfyniad hawdd a gall



Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner

nifer o ffactorau lywio penderfyniadau. Mae'n hanfodol fod canllawiau cyson yn cael eu llunio ar ddechrau'r broses hon fydd yn rhoi meini prawf cadarn ar gyfer dod i benderfyniadau fel hyn er mwyn sicrhau nad ar fypwys unigolion y gwneir y penderfyniadau hyn. Byddai polisi cadarn o blaid enwau uniaith – a'r rheini'n enwau Cymraeg – yn fodd o osgoi trafodaethau hirfaith am enwau ac yn fodd o hyrwyddo a phoblogeiddio'r defnydd o enwau Cymraeg yn unig fel sydd wedi dod yn arfer poblogaidd yn ddiweddar ymhlith ein parciau cenedlaethol. Buasai mabwysiadu enw Cymraeg yn unig yn arwydd grymus o statws y Gymraeg yng Nghymru.

Er gwaetha'r posibilrwydd bod un enw'n addas ar gyfer y ddwy iaith, nodir mai'r bwriad yw ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg ar orgraff yr enw arfaethedig ar gyfer cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig. Rhaid gofyn pam nad yw'r un gwasanaeth ymgynghorol ar gael i swyddogion y Comisiwn wrth iddynt bennu enwau i'w defnyddio mewn testunau Saesneg? Fel y nodwyd eisoes mae'n hynod bosibl mai enw Cymraeg yn unig fydd ar etholaeth felly mae nodi mai'r gofyniad yw i ymgynghori â'r Comisiynydd ynghylch enwau ar gyfer cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg yn gamarweiniol. Nid yw ychwaith yn gwneud cyfiawnder â'r arbenigedd helaeth sydd gan y Comisiynydd yn y maes. Mae'r Comisiynydd yn gyfrifol am safoni enwau lleoedd Cymru – ac nid enwau sy'n tarddu o'r iaith Gymraeg yn unig.

Gan mai ymarferiad paru fydd yn digwydd ar gyfer etholiadau 2026 mae'n bosibl iawn y bydd angen defnyddio cysyllteiriau wrth gyfeirio at enwau'r etholaethau. Cymerer er enghraifft petai etholaeth Dwyfor Meirionnydd yn cael ei baru ag etholaeth Ynys Môn. Rhaid gofyn beth fyddai enw'r etholaeth hon sydd â'r un enw yn Gymraeg ac yn Saesneg yn achos etholaethau Senedd San Steffan ar hyn o bryd erbyn etholiadau 2026. Er enghraifft, a fyddai'n gorfod bod yn 'Dwyfor Meirionnydd ac Ynys Môn' yn Gymraeg yn ogystal â 'Dwyfor Meirionnydd and Ynys Môn' yn Saesneg neu a allai fod yn 'Dwyfor Meirionnydd Ynys Môn' a fyddai'n gweithio yn y ddwy iaith, ond o bosibl ddim yn dderbyniol gan etholwyr gan ei fod yn enw gwneud sy'n pentyrru elfennau ac yn ddieithr ar yr olwg gyntaf. Fy mwriad o nodi hyn yw amlygu bod nifer o ystyriaethau yn ymwneud ag argymhell ffurfiau enwau etholaethau sydd ddim o bosibl yn amlwg ar yr olwg gyntaf, a rhaid neilltuo amser priodol i drafod a dod i gytundeb ar egwyddorion a phatrymau clir i'w dilyn. Byddai'n ddymunol iawn petai confensiynau cytunedig yn cael eu datblygu gan bwyllgor o arbenigwyr a'u cadw o dan ystyriaeth wrth ymgymryd â thasg o'r fath a bod hynny yn ofyniad statudol fel rhan o waith y Comisiwn ar y cyd â'r Comisiynydd. Fel y nodwyd eisoes, mae gan fy staff gryn brofiad o gydweithio â'r



Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner

Comisiwn Ffiniau i Gymru ar ffiniau etholaethau San Steffan a gyda'r Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ar enwau wardiau etholiadol a chymunedau. Ar ben hyn mae ganddynt brofiad sylweddol o weithio gydag awdurdodau lleol a chyrrff cenedlaethol eraill ar brosiectau i safoni ffurfiau enwau aneddiadau a nodweddion tirweddol, sydd yn eu tro yn sylfaen i lawer o enwau gweinyddol. Mae'n deg imi nodi yn y fan hon y byddai'n ddymunol gen i petai ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r angen am adnodd ychwanegol oherwydd y gofyniad statudol hwn fydd arnaf i a'm staff, yn benodol i ddatblygu'r confensiynau cytunedig y cyfeirir atynt uchod.

O safbwynt yr ymwneud â Chomisiynydd y Gymraeg amlinellir proses debyg i'r un gydag etholaethau 2026 yn Atodlen 2 y Bil yn achos etholaethau ar gyfer y cyfnod ar ôl 2026 ac yn benodol wrth gynnal adolygiad ffiniau 'llawn' cyn Etholiad y Senedd yn 2030. Mae'r pwyntiau uchod felly yn berthnasol yn yr achos hwnnw hefyd.

Edrychaf ymlaen at barhau i drafod darpariaethau penodol y Bil mewn perthynas â gwaith Comisiynydd y Gymraeg ymhellach â'r Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (fydd yn cael ei alw yn Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru maes o law).

**9. Darparu ar gyfer cynnal adolygiad o effaith y darpariaethau deddfwriaethol newydd a'r modd y cânt eu gweithredu, yn dilyn etholiad 2026 (drwy ei gwneud yn ofynnol i'r Llywydd, ar ôl yr etholiad, gynnig sefydlu pwyllgor Seneddol i adolygu materion penodedig).**

Mae'n ymddangos yn rhesymol cynnal adolygiad o effaith y darpariaethau deddfwriaethol yn dilyn etholiad 2026 a'r modd y cânt eu gweithredu. Buaswn yn croesawu petai ystyriaeth yn cael ei rhoi i effaith y darpariaethau ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg fel rhan o'r adolygiad.

Edrychaf ymlaen at drafod y Bil ymhellach â chi ar 9 Tachwedd.

Yn gywir

**Efa Gruffudd Jones**  
Comisiynydd y Gymraeg





**Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner**

Amg.